Cyngor Sir y Fflint

# Eich Cyllideb y Cyngor

2026/27



Dewch o hyd i ni ar



# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

Am beth mae'r llyfryn yn sôn a pham bod y penderfyniadau hyn yn bwysig

**Sut mae'r Cyngor yn cael ei ariannu** 4

O ble daw'r arian

**Sut defnyddir eich arian Treth y Cyngor** 5

Y gwasanaethau y mae eich Treth y Cyngor yn eu cefnogi

**Ein pwysau gwariant mwyaf** 8

Pam bod galw a chostau yn cynyddu mewn gwasanaethau lleol

**Cymorth i dalu eich Treth y Cyngor** 9

Disgowntiau, gostyngiadau a chymorth os ydych yn cael trafferth


Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in English. See English page on our website.

**Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn fformat arall cysylltwch â**
**If you would like this document in another format contact:**

Jeśli chciał(a)by Pan(i) otrzymać ten dokument w języku polskim, prosimy o kontakt poprzez:

Jeigu jūs pageidaujate šį dokumentą gauti lietuvių kalba, prašome kreiptis:


Dacă doriți acest document în limba română, vă rugăm să contactați:

Ha magyarul szeretné megkapni ezt a dokumentumot, kérjük, vegye fel a kapcsolatot:

您如果想得到這份文件的粵語版本請聯絡

01352 703020

Gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk
customerservices@flintshire.gov.uk



# Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn egluro sut mae cyllideb y cyngor yn gweithio, sut mae treth y cyngor yn gorwedd yn y gyllideb a pham mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd weithiau. Mae'n nodi o lle y daw arian y cyngor, ar beth mae'n cael ei wario a'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau.


Bob blwyddyn mae'n rhaid i Gyngor Sir y Fflint osod cyllideb gytbwys sy'n golygu penderfynu sut i dalu am wasanaethau hanfodol. Mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio'r gwasanaethau mae pobl yn dibynnu arnynt, y gefnogaeth sydd ar gael i breswylwyr diamddiffyn a sut mae'r cyngor yn ymateb i alw a chostau cynyddol.

Rydym yn gwybod fod llawer o aelwydydd hefyd yn wynebu pwysau ariannol eu hunain. Dyna pam mae'r cyngor yn ystyried opsiynau i arbed arian, arbedion effeithlonrwydd a chyllid amgen yn ofalus cyn cynnig newidiadau i dreth y cyngor. Pan ystyrir cynnydd eu bwriad yw i helpu i ddiogelu gwasanaethau hanfodol a bodloni cyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae pawb sy'n talu treth y cyngor yn helpu i ariannu'r gwasanaethau sy'n cefnogi bywyd dyddiol yn Sir y Fflint.


O ysgolion a gofal cymdeithasol i gasglu gwastraff, ffyrdd a llyfrgelloedd, mae treth y cyngor yn chwarae rhan bwysig yn y modd y caiff y sir ei chynnal.

Nod y cyngor yw helpu preswylwyr i ddeall pam y gwneir penderfyniadau a sut maent yn effeithio ar gymunedau Sir y Fflint.




# Sut mae'r Cyngor yn cael ei Ariannu

Wyddoch chi mai dim ond **27%** o'n cyllid sy'n dod o Dreth y Cyngor?




# O ble y daw'r arian

| 2025-26 £000'oedd | Ffynhonnell | 2026-27 £000'oedd |
|---|---|---|
| 275,984 | Grant Cynnal Refeniw | 294,090 |
| 120,673 | Wedi'l dalu gan Drethdalwyr | 127,769 |
| **367,808** | **Cyfanswm Yr Ariannu** | **421,860** |
| 8,981 | Gweddillion (Dygwyd Ymlaen) | 8,985 |
| 8,985 | Gwedillion (Cariwyd Ymlaen) | 8,985 |



# Sut y caiff eich arian Treth y Cyngor ei ddefnyddio


Mae eich arian Treth y Cyngor yn helpu gydag ariannu'r gwasanaethau yr ydych chi a'ch cymdogion yn dibynnu arnynt.

## Cyngor Sir y Fflint – gwasanaethau lleol

- Addysg ac ysgolion
- Gofal cymdeithasol
- Gwastraff ac ailgylchu
- Ffyrdd a phriffyrdd
- Cynnal gwasanaethau
- Gwasanaethau cymunedol

## Gwasanaethau rhanbarthol – gweithio ledled Gogledd Cymru

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Crwner Gogledd Ddwyrain Cymru




# Sut rydym yn gwario'r cyllid cyfalaf

## Beth yw cyllid cyfalaf?

Cyllid cyfalaf yw'r arian y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i brynu neu adeiladu pethau sy'n parhau am amser hir.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2026 i Fawrth 2027, mae gan y Cyngor gyllideb cyfalaf o £17.246 miliwn. Dyma sut caiff yr arian ei wario:





# Sut rydym yn gwario'r cyllid refeniw

## Beth yw cyllid refeniw?

Cyllid refeniw yw'r arian y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i gynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2026 i Fawrth 2027, mae gan y Cyngor gyllideb refeniw o £421.860 miliwn. Dyma sut caiff yr arian ei wario:



# Ein pwysau gwariant mwyaf

Mae Cyngor Sir y Fflint yn wynebu pwysau cynyddol ar ei gyllideb. Nid yw hyn yn unigryw i Sir y Fflint. Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru yn gweld costau'n codi'n gyflymach na chyllid.

Y pwysau mwyaf yw mewn gwasanaethau lle mae'r galw yn tyfu a lle mae gan y Cyngor gyfrifoldebau cyfreithiol i ddarparu cymorth.



## Gofal Cymdeithasol

**Beth sy'n digwydd:**

- Mwy o blant, teuluoedd ac oedolion sydd angen cymorth
- Mae anghenion yn fwy cymhleth
- Mae lleoliadau gofal a gwasanaethau arbenigol yn costio mwy

**Pam bod hyn yn bwysig::**

- Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ddyletswydd gyfreithiol. Rhaid i'r Cyngor eu darparu, beth bynnag yw'r gost.



## Addysg

**Mae pwysau o ran cost yn cynnwys:**

- Cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cludiant ysgol
- Costau staffio

**Pam bod hyn yn bwysig:**

- Addysg yw un o ymrwymiadau mwyaf y Cyngor ac mae'r galw yn parhau i dyfu.



# Cymorth i dalu eich Treth y Cyngor

## Disgowntiau a Gostyngiadau Treth y Cyngor

### Canllaw i Breswylwyr

Fel arfer, caiff Treth y Cyngor ei gyfrifo yn seiliedig ar y dybiaeth bod dau oedolyn (18 oed neu hŷn) yn byw mewn eiddo.  Caiff rhai pobl eu diystyru rhag talu Treth y Cyngor, gan olygu nad ydynt yn cael eu cyfrif wrth gyfrifo'r swm sy'n daladwy.

### Gostyngiad Person Sengl

Os mai chi yw'r unig oedolyn sy'n byw yn eich cartref, efallai y bydd gennych hawl i ostyngiad o 25% yn Nhreth y Cyngor.

### Unigolion a Ddiystyrir

Efallai y byddwch yn dal yn gymwys i dderbyn gostyngiad, os oes pobl eraill yn byw yn eich cartref nad ydynt yn cael eu cyfrif wrth gyfrifo Treth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n:

- Byw gydag amhariad gwybyddol sylweddol
- 18 oed a dal yn gymwys ar gyfer y Budd-dal Plant
- Unigolion rhwng 18-19 oed sy'n ymadael â'r ysgol/ coleg (fe'u diystyrir tan 1 Tachwedd ar ôl iddynt adael)
- Myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr nyrsio
- Prentisiaid sy'n ennill neu'n derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr y mae'r gyfradd brentisiaeth yn berthnasol iddynt
- Unigolion yn y ddalfa, naill ai yn y carchar, yr ysbyty neu fath arall o ddalfa (ac eithrio o ganlyniad i wrthod talu Treth y Cyngor)
- Byw mewn ysbyty GIG neu gartref gofal cofrestredig yn barhaol
- Preswylwyr cartrefi gofal, cartrefi nyrsio neu hosteli sy'n derbyn gofal neu driniaeth
- Gofalwyr penodol sy'n bodloni'r amodau cymhwyso
- Gweithwyr gofal nad ydynt yn ennill mwy na £44 yr wythnos
- Unigolion rhwng 18-25 oed sy'n gadael gofal, a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ar ôl iddynt droi'n 16 oed
- Aelodau cymunedau crefyddol y mae gweddïo, dysgu neu leihau dioddefaint yn brif alwedigaeth ganddynt

***Os mai dim ond un oedolyn sydd heb ei ddiystyru mewn cartref, bydd gostyngiad o 25% yn berthnasol fel arfer.***

### Gostyngiad Band ar gyfer Pobl Anabl

Gall gostyngiad yn Nhreth y Cyngor fod yn berthnasol os oes angen lle neu gyfleusterau ychwanegol ar berson anabl sy'n byw yn yr eiddo. Mae hyn yn seiliedig ar gynllun a defnydd yr eiddo, nid cofrestriad anabledd yn unig. Os caiff gostyngiad ei ddyfarnu, codir Treth y Cyngor ar un band yn is nag union fand yr eiddo.

### Gofalwyr Maeth

Mae gofalwyr maeth cymeradwy'r awdurdod lleol yn derbyn gostyngiad o 50% ar gyfer Treth y Cyngor. Mae gofalwyr maeth sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol yn derbyn cymorth ariannol cyfatebol.

### Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

Os ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth y Cyngor ac ar incwm isel, efallai y byddwch chi'n gymwys neu'n cael cymorth gyda rhywfaint o'ch bil Treth y Cyngor neu'r bil cyfan. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'n tîm Budd-daliadau drwy benefits@flintshire.gov.uk neu ffoniwch 01352 704848, gan ddewis opsiwn 3.

## Eithriadau Treth y Cyngor – Canllaw Cyflym

Mewn rhai amgylchiadau, o bosibl na fydd rhaid i chi dalu Treth y Cyngor. Mae rhai eithriadau'n berthnasol i eiddo gwag yn unig, tra bod eraill yn berthnasol pan fydd eiddo wedi'i feddiannu. Mae'r daflen hon yn rhoi trosolwg clir o bob math o eithriad.

### Eithriadau gyda Therfyn Amser

- Dosbarth A – Gwaith Atgyweirio Sylweddol / Newidiadau Strwythurol: Eiddo gwag lle mae gwaith atgyweirio sylweddol ei angen neu'n cael ei wneud. Eithriad am uchafswm o 12 mis, yna tâl llawn + premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor.
- Dosbarth B – Eiddo y mae Elusen yn Berchen Arno: Eiddo gwag, a ddefnyddiwyd ddiwethaf at ddibenion elusennol. Eithriad am uchafswm o 6 mis.
- Dosbarth C – Eiddo Gwag Heb ei Ddodrefnu: Mae eiddo gwag heb ei ddodrefnu, gan gynnwys adeiladau newydd, yn destun eithriad am uchafswm o 6 mis.
- Dosbarth F – Ar ôl Grant Profiant: Eiddo sy'n wag yn dilyn marwolaeth y perchennog. Eithriad tan 12 mis ar ôl y profiant, neu nes y caiff ei werthu, ei feddiannu neu ei ail-osod.
- Dosbarth H – Eiddo sy'n cael ei gadw ar gyfer gweinidog crefydd. Eithriad am uchafswm o 12 mis, yna tâl llawn + premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor.

### Eiddo Gwag sy'n Destun Eithriad (Parhaus)

- Dosbarth D – Y perchennog/ tenant yn cael ei gadw yn y carchar
- Dosbarth E – Y preswylydd wedi symud i'r ysbyty neu gartref gofal yn barhaol
- Dosbarth G – Meddiannaeth wedi'i gwahardd gan y gyfraith
- Dosbarth I – Y perchennog wedi symud i fyw i rywle arall i dderbyn gofal personol
- Dosbarth J – Y perchennog wedi symud i fyw i rywle arall i ddarparu gofal personol
- Dosbarth K – Ym mherchnogaeth myfyriwr ac wedi'i feddiannu ddiwethaf gan fyfyriwr
- Dosbarth L – Eiddo sydd wedi'i ailfeddiannu
- Dosbarth Q – Y perchennog yn fethdalwr
- Dosbarth R – Llain carafán neu angorfa cwch sydd wedi'u gadael yn wag
- Dosbarth T – Rhandy gwag na ellir ei osod ar wahân o dan reolau cynllunio

### Eiddo wedi'i Feddiannu sy'n Destun Eithriadau

- Dosbarth M – Neuaddau preswyl myfyrwyr
- Dosbarth N – Eiddo a feddiannir gan fyfyrwyr llawn amser yn unig
- Dosbarth O – Llety'r Lluoedd Arfog sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Dosbarth P – Eiddo ar gyfer lluoedd sy'n ymweld neu bersonél amddiffyn rhyngwladol
- Dosbarth S – Pob preswylydd o dan 18 oed
- Dosbarth U – Pob preswylydd ag amhariad gwybyddol sylweddol
- Dosbarth V – Prif breswylfa rhywun sydd â breintiau diplomyddol yn y DU
- Dosbarth W – Rhandy sy'n gartref i berthynas hŷn neu anabl
- Dosbarth X – Unigolion sy'n gadael gofal (wedi'u heithrio nes eu bod yn 25 oed)
- Dosbarth Y – Lloches i ferched

## Angen Cymorth neu Eisiau Gwneud Cais?

I gael cyngor neu ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Tax/Council-Tax.aspx, neu gwnewch gais am ostyngiad neu eithriad Treth y Cyngor, ewch i: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Tax/Council-Tax-Forms.aspx



# Band D Council Tax / Treth y Cyngor Band D

| 2025/26 £ | 2026/27 £ | COMMUNITY COUNCIL / CYNGOR CYMUNED | Tax Base 26/27 / Treth Sylfaenol 26/27 (Properties / Anheddau) | Flintshire County Council / Cyngor Sir y Fflint £ | Police & Crime Commissioner North Wales / Comisinydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru £ | Community Council / Cynghorau Cymuned £ | Council Tax at Band D / Treth Y Cyngor yn ol Band D £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 80,786 | 87,983 | Argoed | 2,578.82 | 1,914.92 | 398.25 | 34.12 | 2,347.29 |
| 48,050 | 47,732 | Bagillt | 1,479.42 | 1,914.92 | 398.25 | 32.26 | 2,345.43 |
| 162,863 | 180,000 | Broughton & Bretton - Brychdyn a Bretton | 2,772.72 | 1,914.92 | 398.25 | 64.92 | 2,378.09 |
| 41,229 | 43,290 | Brynford - Brynffordd | 473.38 | 1,914.92 | 398.25 | 91.45 | 2,404.62 |
| 398,378 | 458,135 | Buckley - Bwcle | 6,866.71 | 1,914.92 | 398.25 | 66.72 | 2,379.89 |
| 44,500 | 49,500 | Caerwys | 641.64 | 1,914.92 | 398.25 | 77.15 | 2,390.32 |
| 30,800 | 32,340 | Cilcain | 750.01 | 1,914.92 | 398.25 | 43.12 | 2,356.29 |
| 451,421 | 475,995 | Connah's Quay - Cei Connah | 6,253.85 | 1,914.92 | 398.25 | 76.11 | 2,389.28 |
| 299,529 | 305,763 | Flint - Y Fflint | 5,089.01 | 1,914.92 | 398.25 | 60.08 | 2,373.25 |
| 36,500 | 39,750 | Gwernaffield & Pantymwyn - Y Waun | 1,016.06 | 1,914.92 | 398.25 | 39.12 | 2,352.29 |
| 24,500 | 31,000 | Gwernymynydd | 592.59 | 1,914.92 | 398.25 | 52.31 | 2,365.48 |
| 53,000 | 63,000 | Halkyn - Helygain | 1,375.04 | 1,914.92 | 398.25 | 45.82 | 2,358.99 |
| 367,243 | 406,189 | Hawarden - Penarlâg | 6,416.38 | 1,914.92 | 398.25 | 63.31 | 2,376.48 |
| 36,584 | 36,611 | Higher Kinnerton | 889.55 | 1,914.92 | 398.25 | 41.16 | 2,354.33 |
| 307,000 | 359,500 | Holywell - Treffynnon | 3,443.65 | 1,914.92 | 398.25 | 104.40 | 2,417.57 |
| 135,781 | 137,630 | Hope - Yr Hôb | 1,858.01 | 1,914.92 | 398.25 | 74.07 | 2,387.24 |
| 84,000 | 86,000 | Leeswood - Coed-llai | 852.54 | 1,914.92 | 398.25 | 100.88 | 2,414.05 |
| 76,245 | 76,245 | Llanasa | 2,039.99 | 1,914.92 | 398.25 | 37.38 | 2,350.55 |
| 35,200 | 37,500 | Llanfynydd | 882.45 | 1,914.92 | 398.25 | 42.50 | 2,355.67 |
| 338,881 | 360,614 | Mold - Yr Wyddgrug | 4,611.82 | 1,914.92 | 398.25 | 78.19 | 2,391.36 |
| 41,647 | 43,715 | Mostyn | 741.83 | 1,914.92 | 398.25 | 58.93 | 2,372.10 |
| 15,650 | 16,500 | Nannerch | 285.71 | 1,914.92 | 398.25 | 57.75 | 2,370.92 |
| 21,000 | 22,000 | Nercwys | 313.02 | 1,914.92 | 398.25 | 70.28 | 2,383.45 |
| 42,360 | 43,496 | Northop - Llaneurgain | 1,596.53 | 1,914.92 | 398.25 | 27.24 | 2,340.41 |
| 39,116 | 42,299 | Northop Hall | 842.02 | 1,914.92 | 398.25 | 50.24 | 2,363.41 |
| 124,611 | 133,112 | Pen-y-ffordd | 2,332.13 | 1,914.92 | 398.25 | 57.08 | 2,370.25 |
| 40,000 | 46,000 | Queensferry | 725.40 | 1,914.92 | 398.25 | 63.41 | 2,376.58 |
| 91,19 | 95,221 | Saltney | 1,937.75 | 1,914.92 | 398.25 | 49.14 | 2,362.31 |
| 64,000 | 64,000 | Sealand | 1,777.48 | 1,914.92 | 398.25 | 36.01 | 2,349.18 |
| 187,953 | 199,000 | Shotton | 2,219.67 | 1,914.92 | 398.25 | 89.65 | 2,402.82 |
| 27,135 | 28,854 | Trelawnyd & Gwaenysgor | 423.38 | 1,914.92 | 398.25 | 68.15 | 2,381.32 |
| 42,000 | 45,500 | Treuddyn | 772.46 | 1,914.92 | 398.25 | 58.90 | 2,372.07 |
| 62,500 | 68,000 | Whitford - Chwitffordd | 1,181.06 | 1,914.92 | 398.25 | 57.58 | 2,370.75 |
| 38,920 | 40,866 | Ysceifiog | 690.92 | 1,914.92 | 398.25 | 59.15 | 2,372.32 |
| 3,890,580 | 4,203,340 | TOTAL / CYFANSWM | 66,723.00 | | | | |
| | | AVERAGE / CYFARTALEDD | | 1,914.92 | 398.25 | 63.00 | 2,376.17 |
| | | Charge on Collection Fund / I'w Godi o'r Gronfa Gasglu | | 127,769,207 | 26,572,435 | 4,203,340 | 158,544,982 |

The table above is for Band D properties only. If your property falls within another property band, use the table to find out how much you pay. The Tax Base is the estimated income that will be received for each £1 of Council Tax. It is expressed as a "Band D equivalent" and takes into account the number of properties within each band, in each community area.

Ar gyfer anheddau ym Mand D yn unig y mae'r tabl uchod. Os yw eich annedd chi mewn band arall, defnyddiwch y tabl i ganfod beth fydd eich bil treth. Amcangyfrif o'r incwm a dderbynnir am bob £1 o Dreth y Cyngor yw'r Dreth Sylfaenol. Mynegir hyn fel "cyfwerth â Band D , gan gymryd i ystyriaeth nifer yr anheddau o fewn pob band, ym mhob ardal gymunedol.

| Property in / Annedd yn | You Pay / Byddwch yn Talu |
|---|---|
| BAND A | 6/9ths of the Band D Charge in your community<br>6/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |
| BAND B | 7/9ths of the Band D Charge in your community<br>7/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |
| BAND C | 8/9ths of the Band D Charge in your community<br>8/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |
| BAND D | The charge for your community in the table<br>Y taliad yn eich cymuned a ddangosir yn y tabl |
| BAND E | 11/9ths of the Band D Charge in your community<br>11/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |
| BAND F | 13/9ths of the Band D Charge in your community<br>13/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |
| BAND G | 15/9ths of the Band D Charge in your community<br>15/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |
| BAND H | Twice the Band D Charge in your community<br>Dwywaith cyfanswm taliad Band D yn eich cymuned |
| BAND I | 21/9ths of the Band D Charge in your community<br>21/9fed o daliad Band D yn eich cymuned |